



<b>CYFARFOD</b>	<b>Cydbwyllgor GwE</b>
<b>DYDDIAD</b>	21 Chwefror 2018
<b>TEITL</b>	<b>Cyllideb Sylfaenol 2018/19</b>
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno i'r Cydbwyllgor : <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyllideb Sylfaenol GwE 2018/19 (Atodiad 1)</li><li>• Cyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau (Atodiad 2)</li><li>• Crynodeb Ailstrwythuro 1 Medi 2017 (Atodiad 3)</li></ul>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2018/19 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.
<b>AWDUR</b>	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd

## **1. Cyllideb Sylfaenol (“sefyll yn llonydd”)**

1.1 Mae cyllideb GwE yn parhau i ddatblygu ac mae bellach yn adlewyrchu ymrwymadau busnes craidd y Model Cenedlaethol a nifer sylweddol o brosiectau a ariennir trwy grant.

1.2 Mae effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail “sefyll yn llonydd”), gan gynnwys codiadau cyflog a chynnydd CPI.

## **2. Targed Arbedion**

- 2.1 Mae'r gyllideb atodol yn adlewyrchu penderfyniad Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru ar 19 Ionawr 2018 i gynnwys targed arbedion sy'n cyfateb i leihad o 1% yng nghyfraniadau craidd y 6 awdurdod cyfansoddol, ar ôl ychwanegu chwyddiant.
- 2.2 Gweler ar linell "Arbedion i'w Darganfod" y swm (£36,879), sef y 1% uchod.

## **3. Rhent**

- 3.1 Mae'r GwE wedi adleoli ei swyddfa ardal Fflint/Wreccsam yn yr Wyddgrug o'r 1af o Fedi 2017, gyda'r gost flynyddol yn uwch na chost y swyddfa flaenorol, er fod yr eiddo newydd yn llawer mwy addas i bwrpas.
- 3.2 Disgwylir ad-ennill elfen o'r cynnydd mewn cost trwy ddenu ffioedd, yn gadael (£11,000) o arbedion i'w darganfod.

## **4. Cronfa Tanwariant**

- 4.1 Mae'r adroddiad 'Cyllideb GwE 2017/18 - Adolygiad Chwarter 3' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn amcangyfrif bydd oddeutu £379,167 yn y gronfa tan wariant ar 31/03/2018.
- 4.2 Bydd angen clustnodi rhan briodol o'r gronfa ar gyfer pontio unrhyw elfen o'r targed arbedion (para 2 uchod) a'r cynnydd rhent (para 3 uchod), os ni all GwE ddarganfod yr holl arbedion yn ystod 2018/19.

## **5. Ailstrwythuro**

- 5.1 Mae sawl adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor ers 1 Chwefror 2017 ar model o weithio Uwchradd diwygiedig a datblygu model Arweinyddiaeth ddsranedig ar draws sectorau cynradd ac uwchradd.
- 5.2 Er bod y strwythur arfaethedig yn barhaol, rheolir y risg o unrhyw leihad mewn grantiau i'r dyfodol trwy penodi i rhai o'r swyddi ar sail dros dro.
- 5.3 Gyda'r strwythur arfaethedig eisoes yn ei le ac yn weithredol ers 1 Medi 2017, cyflwynir yma yn atodiad 3 crynodeb ystadegol ac ariannol.

### **Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2018/19

Atodiad 2 - Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol 2018/19

Atodiad 3 - Crynodeb Ailstrwythuro 1 Medi 2017

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Y Swyddog Monitro:**

Byddaf yn rhoi unrhyw sylwadau ar briodoldeb yn y cyfarfod

### **Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad.